Fy Arglwydd Dduw, daw im barchedig ofon

Caneuon Ffydd: Rhif 140

Fy Arglwydd Dduw, daw im barchedig ofon
wrth feddwl am holl waith dy ddwylo di,
yng nghân y sêr a rhu y daran ddofon,
drwy'r cread oll, dy rym a welaf i:

Cân f'enaid, cân, fy Arglwydd Dduw, i ti,
mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti;
cân f'enaid, cân, fy Arglwydd Dduw, i ti,
mor fawr wyt ti, mor fawr wyt ti.

Wrth fynd am dro drwy'r glennydd teg a'r dolydd,
a gwrando cân yr adar yn y gwŷdd,
a bwrw trem o gopa uchel fynydd
yn sŵn y nant neu falm yr awel rydd:

Pan ddaw i'm cof i Dduw roi'i Fab heb arbed,
a'i roi yn Iawn, tu hwnt i ddeall dyn,
ar groes o'i fodd yn dwyn fy maich i'm gwared,
i faddau 'mai rhoes ef ei waed ei hun:

Pan ddêl y Crist â bloedd y fuddugoliaeth
a'm dwyn i dref, mor llawen fyddaf fi;
ymgrymu yno wnaf mewn parchedigaeth,
gan ddatgan byth, fy Nuw, mor fawr wyt ti:

CARL GUSTAF BOBERG, 1859–1940
cyf. STUART W. K. HINE, 1899–1989 ac E. H. GRIFFITHS

MYFYRDOD

Dwn i ddim a fuoch chi erioed yn 'Techniquest' yng Nghaerdydd neu yn Wrecsam? Os buoch chi yno, yna fe gawsoch eich cyfareddu a'ch synnu, rwy'n siŵr, heb sôn am eich cadw chi a'ch plant yn ddiddig am oriau. Dangos dirgelion natur a'r darganfyddiadau gwyddonol sy'n ein helpu ni i esbonio rhai o'r dirgelion hynny ydy diben y lle.

Bues i, fel plentyn mawr, yn edrych yn hir ar y teclyn oedd yn edrych, i gychwyn, ar gefn llaw person, ac yna'n chwyddo'r

darlun yn ôl rhyw ganran bob tro, nes gweld llun o Gaerdydd o'r awyr, a llun o Gymru, a llun o Ewrop. Wrth barhau i chwyddo'r darlun, fe aed â mi, yn y diwedd, heibio i'r llwybr llaethog ac y tu allan i'n bydysawd ni, heibio i fydysawdau eraill nes darfod yn yr anwybod mawr! Aeth y teclyn â mi yn ôl hefyd at gefn y llaw, ond nid arhosodd yn y fan honno! Fe aeth i mewn o dan y croen, gan leihau bob tro nes cyrraedd at bethau fel moleciwlau ac atomau a niwtronau, a darfod yn yr anwybod bychan hwnnw hefyd.

Wrth fyfyrio ar fawredd Duw ei hun, sydd yn fwy hyd yn oed na'r anwybod mawr hwnnw sydd y tu hwnt i'n bydysawd, mae ein hemynydd yma yn sefyll mewn 'parchedig ofon'. Ni all wneud dim ond moli Duw am ei fawredd: 'mor fawr wyt ti'. Mor fawr yw Duw, mor fychan ydym ni. Ond, er mai megis llychyn bychan ydy pob un ohonom, o'n cymharu â Duw, fe wyddom fod ganddo ofal amdanom ni a'i fod yn ein caru. Fe gofia'r emynydd hynny: 'Pan ddaw i'm cof i Dduw roi'i Fab heb arbed.'

Pan sonia Iesu am ofal Duw dros aderyn y to ym Mathew 10:26–31, cawn weld, er ein bychaned ni, fod gofal Duw hefyd yn ymestyn dros rai llai na ni'n hunain hyd yn oed. 'Peidiwch ag ofni, yr ydych chi'n werth mwy na llawer o adar y to' (Mth. 10:31) ydy cyngor Iesu i'r rhai sy'n gwrando; 'y mae hyd yn oed pob blewyn o wallt eich pen wedi ei rifo' (adn. 30). Anoga Iesu ei ddilynwyr yma hefyd i beidio ag ofni dynion, a'r hyn y gallan nhw ei wneud inni. Mae ofn felly yn ein dinistrio. Ond dylem fod â pharchedig ofn tuag at Dduw, yr hwn sydd â'r gallu i gadw ein heneidiau rhag dinistr. Peth da ac adeiladol, felly, yw bod â pharchedig ofn. Fel hyn y mae Diarhebion 29:25 yn ymdrin â'r cyflwr o ofn: 'Magl yw ofni pobl, ond diogel yw'r un sy'n ymddiried yn yr Arglwydd.'

Daeth yr emyn hwn atom trwy aml gyfnewidiad a chyfieithiad; o'r Swedeg i'r Saesneg, ac yna trwy law E. H. Griffiths i'r Gymraeg. Tybed nad ydy hyn hefyd yn ein cyfeirio at fawredd Duw a'i ofal dros bob un ohonom er cymaint, ac oherwydd, y mawredd hwnnw.

GWEDDI

Fy Arglwydd Dduw, yr hwn wyt yn fwy na dim y gallaf i ei ddychmygu, dysg i mi fod â pharchedig ofn ohonot ti yn unig. Diolchaf iti yma dy fod yn ymwneud â rhai mor fychan a di-nod â mi, a gofal gennyt am bethau fel adar y to, sydd yn llai na mi hyd yn oed. Mae'r byd mawr cyfan yn dy law. Er clod i'th enw mawr. Amen.